Adran Rheoleiddio / Regulatory Department
Gwasanaeth Amgylcheddol / Environmental Service
Rheolwr / Manager - Gareth Jones

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Joint Planning Policy Unit
Neuadd y Dref / Town Hall
Bangor
Gwynedd. LL57 IDT

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**
**Joint Planning Policy Unit**

☎ (01286) 685003

www.ynysmon.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

Gofynnwch am / Ask for: Nia Haf Davies
☎ (01286) 685003
✉ planningpolicy@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 17-08-11

Annwyl Fudd-ddeiliad

**Ynglŷn â: Cylchlythyr y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Awst 2011**

## Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC)

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn. Yn ogystal, cymeradwyodd y ddau awdurdod newidiadau cyfansoddiadol er mwyn creu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Mae'r UPCC, a sefydlwyd yn ffurfiol ar 1 Mai 2011, wedi'i lleoli yn Neuadd y Dref, Bangor, ac mae staff o'r ddau Awdurdod yn gweithio ynddi. Gweler uchod fanylion cyswllt yr UPCC.

## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) Ynys Môn a Gwynedd

Mae'r CDLl ar y Cyd yn strategaeth defnydd tir am gyfnod o 15 mlynedd, gan ddechrau yn 2011. Canolbwyntia'r cynllun ar ddatblygiad cynaliadwy. Bydd yn ceisio cyflawni'r hyn a ganlyn:

- Rhoi arweiniad o ran datblygu tai, manwerthu, cyflogaeth a defnyddiau eraill;
- Cynnwys polisïau fydd yn cynorthwyo'r Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio;
- Gwarchod ardaloedd i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn cael ei gynnal a'i gyfoethogi.

Gweler yr ardal sy'n berthnasol i'r CDLl ar y Cyd ar y map sydd wedi'i gynnwys gyda'r cylchlythyr hwn.

## CDLl ar y Cyd – Y sefyllfa gyfredol

Y cam cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd yw'r Cytundeb Cyflawni. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi'i rannu'n ddwy ran:

- Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLl ar y Cyd, a
- Cynllun Cyswllt Cymunedol, sef y strategaeth a ddefnyddir i sicrhau bod aelodau'r cyhoedd, ynghyd â budd-ddeiliaid allweddol, yn rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun.

Dylai bod y ddau Gyngor wedi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni cyn diwedd mis Hydref 2011. Yna, fe'i anfonir i Lywodraeth Cymru er cymeradwyaeth. Gellir gweld y Cytundeb Cyflawni ar wefan y ddau Gyngor.

Mae'r gwaith rhagarweiniol o baratoi a chasglu'r sail tystiolaeth ar gyfer y CDLl ar y Cyd yn digwydd ar hyn o bryd.

## Cofrestr Safleoedd Posib – Cyflwyno safleoedd i gael eu hystyried

Elfen allweddol o sail tystiolaeth y CDLl ar y Cyd fydd adnabod y tir sydd ei angen i fodloni anghenion datblygu Ynys Môn a Gwynedd. Yn ogystal, mae'n bwysig adnabod tir sydd angen cael ei warchod rhag datblygiadau anaddas. Adwaenir y safleoedd posib hyn fel Safleoedd Posib a bydd Cofrestr Safleoedd Posib (CSA) yn cael ei hagor ym mis Medi. Dyma pryd all datblygwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd gyflwyno tiroedd allai gael eu cynnwys yn y cynllun, naill ai ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, neu i gael eu gwarchod oherwydd eu tirweddau arbennig, mannau agored neu werth cadwriaethol. Rhagwelir y gwnaiff y cyfnod galw am safleoedd posib yma barhau am 4 mis.

Bydd yn rhaid atodi tystiolaeth ategol briodol gyda phob safle posib a gyflwynir fel y gellir cyfiawnhau cynnwys y safle dan sylw yn y CDLl ar y Cyd. Bydd angen asesu pob safle a gyflwynir yn drwyadl er mwyn sicrhau eu bod yn addas a bod modd eu datblygu. Cyn i'r Gofrestr Safleoedd Posib gael ei hagor yn ffurfiol, mae 'Dogfen Ymgynghorol ar Safleoedd Posib' wedi'i chynhyrchu sy'n rhoi amlinelliad o'r fethodoleg a ddefnyddir i asesu'r Safleoedd Posib. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y fethodoleg hon yn dechrau ar **ddydd Iau 18fed Awst ac yn gorffen am 5pm ar ddydd Iau 15fed Medi**.

Mae copïau o'r ddogfen ar gael i'r cyhoedd yn ystod oriau agor arferol y swyddfeydd a ganlyn: Neuadd y Dref, Bangor; Pencadlys Cyngor Gwynedd, Caernarfon; Gwasanaethau Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni; ynghyd â phrif swyddfeydd ardal Cyngor Gwynedd ym Mhwllheli a Dolgellau. Yn ogystal, mae'r ddogfen ar gael yn llyfrgelloedd cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd. Gellir gweld copïau electronig o'r ddogfen, neu lawr lwytho copi ohoni, ar wefan y ddau Awdurdod.

Cysylltir â'r unigolion a gyflwynodd safleoedd yn wreiddiol ar Gofrestr Safleoedd Posib Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a gafodd ei stopio ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben fel y gellir trafod eu cyflwyniadau.

## Arfarniad Cynaladwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Mae'n rhaid i'r CDLl ar y Cyd fod yn destun Arfarniad Cynaladwyedd (AC), fydd hefyd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Bydd yr arfarniadau hyn yn sicrhau bod polisïau a chynigion y CDLl ar y Cyd yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a bod yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn cael eu hadnabod, eu hasesu, eu lliniaru a'u monitro. Yr Adroddiad Sgopio yw rhan gyntaf yr AC. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn ymgynghori ar Adroddiad Sgopio'r AC am gyfnod o 7 wythnos (rhwng 21/7/11 a 8/9/11).

Prif Swyddfa / Head Office
Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor / Council Office
CAERNARFON
Gwynedd. LL55 1SH
(01766) 771000

Mae copïau o'r ddogfen ar gael i'r cyhoedd yn ystod oriau agor arferol y swyddfeydd a ganlyn: Neuadd y Dref, Bangor; Pencadlys Cyngor Gwynedd, Caernarfon; Gwasanaethau Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni; ynghyd â phrif swyddfeydd ardal Cyngor Gwynedd ym Mhwllheli a Dolgellau. Yn ogystal, mae'r ddogfen ar gael yn llyfrgelloedd cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd. Gellir gweld copïau electronig o'r ddogfen, neu lawr lwytho copi ohoni, ar wefan y ddau Awdurdod.

**CDLl ar y Cyd – Camau nesaf y broses**

Mae'r tabl isod yn dangos y camau allweddol sydd angen eu gwireddu fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd, ynghyd â'r amserlen:

| | | |
|---|---|---|
| **Amserlen Derfynol** | | |
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10*) | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu a datblygu'r sail tystiolaeth | Gorffennaf 2010 – Gorffennaf 2012 |
| 3. | Cyfranogiad cyn adneuo – paratoi'r dogfennau cyn adneuo a fydd yn amlinellu'r prif nodau a'r strategaeth a ffafrir (*Rheoliad 14*) | Ionawr 2011 – Gorffennaf 2012 |
| 4. | Ymgynghori Cyn Adneuo (*Rheoliad 15*) | Medi 2012 – Hydref 2012 |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi drafft cyflawn y CDLl ar y Cyd Cyn Adneuo | Tachwedd 2012 – Medi 2013 |
| 6. | Adneuo'r CDLl ar y Cyd a'r dogfennau ategol (*Rheoliad 17*) | Hydref 2013 – Tachwedd 2013 |
| **Amserlen Arwyddol** | | |
| 7. | Ystyried y sylwadau a wnaethpwyd ar y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliadau 18 ac 19*) | Rhagfyr 2013 – Mehefin 2014 |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau ynghylch safleoedd amgen ac ymgynghori arnynt (*Rheoliadau 20 a 21*) | Ionawr 2014 – Chwefror 2014 |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio (*Rheoliad 22*) | Tachwedd 2014 |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23*) | Ebrill 2015 |
| 11. | Cyhoeddi Adroddiad yr Archwiliwr (*Rheoliad 24*) | Ionawr 2016 |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25*) | Ebrill 2016 |
| 13. | Monitro ac Adolygu | Adroddiad Blynyddol |


Anfonir cylchlythyrau pellach i fudd-ddeiliaid wrth i ni gyrraedd camau allweddol ym mhroses y CDLl ar y Cyd. Os ydych yn dymuno i ni dynnu eich manylion oddi ar ein cronfa ddata o fudd-ddeiliaid, cysylltwch â'r UPC ar y Cyd gan ddefnyddio'r cyfeiriad ar ben y llythyr hwn, neu anfonwch e-bost i planningpolicy@gwynedd.gov.uk

Yn gywir

[redacted]

**NIA HAF DAVIES**
**RHEOLWR CYNLLUNIO (POLISI)**

Prif Swyddfa / Head Office
Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor / Council Office
CAERNARFON
Gwynedd. LL55 1SH
(01766) 771000




Nodiant / Notation

Ardal y CDLl ar y Cyd / Joint LDP Area

Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park

Prif Swyddfa / Head Office
Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor / Council Office
CAERNARFON
Gwynedd. LL55 1SH
(01766) 771000